OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 734

## Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

## RHAN V

Gofynion Ychwanegol sy'n Gymwys i Glinigau Annibynnol

**Clinigau annibynnol**

**50.** Pan fo clinig annibynnol yn darparu gofal cynenedigol i gleifion, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y proffesiynolyn gofal iechyd sy'n bennaf cyfrifol am ddarparu'r gofal hwnnw yn fydwraig, yn ymarferydd cyffredinol â chymwysterau priodol, neu'n ymarferydd meddygol â chymhwyster arbenigol mewn obstetreg.